
Yn ystod y degawd diwethaf dylifodd dwsinau o Yuppies Caerdydd i fyny'r afon Taf i odro'r Garth. Beth yn union yw'r atyniad mawr? Mewn cyfres o ymchwiliadau pell -gyrhaeddol bu 'Tafod Elai' yn holi pam y mae cymaint yn mynnu bod yn Garthion?




RWY'N AELOD YNG NGWAELOD-Y-GARTH

Mae'n debyg bod wylofain a rhincian dannedd mawr yn Nhabernacl, Efail Isaf y dyddiau hyn. Arferid ystyried mai hwn oedd Yr Yuppie Gapel yn Nhaf-Elai, ond mae'n debyg fod Bethlehem Gwaelod-y-Garth bellach wedi ei oddiweddyd yng nghynghrair yr ymgrafangwyr cymdeithasol. Mae'n debyg mai ystyr gwreiddiol Tabernacl oedd pabell. Pa Yuppie gwerth ei halen deudwch i mi fuasai'n dymuno addoli mewn tent?

Rwy'n aelod yng Ngwaelod-y-Garth. (Damweiniol hollol yw'r tinc cynganeddol gyda llaw, jest rhag ofn i ryw ddiwylliangi awgrymu fy mod yn sefydlu dosbarth cerdd dafod yn y festri) Bum yn chwilio am le i roi fy nhocyn aelodaeth i lawr byth ers iddynt chwalu'r hen Orphwysfa yn Llanberis i wneud lle i ragor o Concwerwyr Everest, a chan nad oes hanner can llath rhwng y tŷ 'ma a phorth yr eglwys a elwir Bethlehem doedd gen i fawr o esgus, nag oedd?

Wn i ddim pa effaith a gefais ar y lle cofiwch. I feddwl bod y Parch. R.G. Berry wedi para yno am hanner canrif bûm i drwy dri gweinidog mewn cynifer o flynyddoedd. Goleuodd y Parch Rhys Tudur fi am y Gogledd cyn gynted ag y clywodd fy mod ar ddyfod. Be oedd ar y Parchedig ofn? O Rys i Rees yr aeth hi wedyn. Parhaoedd y Parch Ifor Rees yn ddigon hir i wlychu talcen y fenga acw cyn trosglwyddo'r awennau i'r Parch T J Davies sy'n hen law ar drin hen rebeliaid. Eithr dim ond yn rhan amser yr oedd hyd yn oed efe yn fodlon ysgwyddo'r cyfrifoldeb o'm bugeilio.

Yr argoel gyntaf a gefais o Yuppie-rwydd y gynulleidfa oedd y ceir a barciai yn un rhes o symbolau statws, diweddar iawn - E - rej, ger fy nôr bob bore Sul. Teimlwn yn fy nghywilydd fel symud fy metro bach tystysgrif "X" i'r cefn o'r golwg, ond roedd gen i ormod o ofn tolcio'r Jag a'r Volvo Awst o boptu iddo. Anelu am yr oedfa ac ymgysuro wrth weld dau o gyfeillion blodau nyddiau yn rhannu copiau o'r 'Caniedydd' i gyn-Galfiniaid fel fi wrth y drws. Yuppies neu beidio, roedd gobaith yn Alwyn Harding a Rhodri Gwyn y cawn gwmni rhai o'r hogia. Byrhoedlog fu'r gobaith hwnnw ysywaeth wrth i mi sylweddoli eu bod hwythau wedi bod yn dringo. Wele hwy a esgynasant i'r Set Fawr! Does dim dichon bod yn ddiacon ac yn un o'r hogia...

Nid capel pentref mo Bethlehem mwyach fel y tystia'r ceir ac ambell frodor digon piwis. Deuant o hirbell i hyfforddi eu hepil yn y crefftau traddodiadol o ddweud adnod, cyhoeddi emyn a pherfformio pishis-i'r-camera ar gyfer S4C. Nid dim ond rhyw hen dôn emynyddol yw 'Hyder' yn ein llyfraun NI. 'A oes gennych chwi delynau?' ebe copi'r plant y canfed cymanfa ag un llais ac yn wir i chi gall canran dda o'r pethau bach ateb heb air o gelwydd 'oes, oes telynau glân!" gan gyfeirio at yr horwth llinynnol yn y lolfa sy'n costio cymaint â'r ail-gar.

Rhag i'r un addolwr teithiol deimlo allan ohoni gosodir pentyrrau o'r 'Dinesydd' yn y cyntedd ochr-yn-ochr â'r papur jeriw hwn. Roedd 'Y Dinesydd' wedi'r cwbwl wedi llwyr ymdynghedu i achos yr Yuppie ymhell cyn i'r gair gael ei greu. Ond gallaf dystio bod y 'Croeso i bawb' a welir yn hysbyseb Bethlehem yn y 'Western Mail' yn ddiffuant iawn. Dyma'r unig gapel y gwn i amdano lle medrwn gael gafael ar lyfrau rasio ceffylau yn y festri. Mae 'na rywun o blith yr aelodau yn gynrychiolydd gwasg, ac yn cario cyfrolau rif y gwlith i'w gwerthu er budd coffrau'r capel. Am gyn lleied â sofren yr un llwyddais i gael fy mhump ar gloriau caled 'Horseriding Society' a 'Dawn Run' cyn i'r un o ohebwyr chwaraeon 'Radio Cymru' godi'u trwynau o'r Cwpan Cymru.

Yma ym Mayfair Morgannwg Ganol mae'n debyg nad oes yr un wan jac o blith aelodau'r capel yn ddiwaith. Efallai'n wir mai dyna pam yr ydym mor selog - gwybod nad ydym yn diolch hanner digon tra nad oes gan bobol eraill hanner digon i ddiolch amdano. Roedd y seddau ar fore Sul bron mor llawn a'r coffrau, a bachodd y Parch Gwilym Roberts ei gyfle i gystwyo Dan Sang a'i dylwyth am ei hunan-fodlonrwydd materol. Bron na chyfeiriodd at yr Yuppie wrth ei enw wrth edliw inni stori Saccheus. Arian yw gwraidd pob drwg ac mae'r dosbarth canol Cymraeg yn ymwybodol iawn o'i wreiddiau... Ond chwarae teg, ar ôl oes o chwysu chwartia'n dringo, pa Yuppie yn ei iawn bwyll sy'n bwriadu 'disgyn ar frys'?

Dewch hyd Fethlehem! Efallai mai Tabernacl, Efail Isaf yw'r capel a welir ar 'Pobol y Cwm' ond yr eiddom ni bellach yw 'Pobol yr In-Cwm'.

Dafydd Huws

## ATAL DWEUD

Pamffledyn newydd, yn yr iaith Gymraeg, ar gyfer rhieni sy'n gofidio am leferydd eu plant. Mae nifer o blant yn mynd trwy gyfnod o 'atal dweud' fel rhan naturiol o'u datblygiad, ond mae rhai plant yn datblygu atal dweud o ddifri pan maen nhw'n ifanc. Bydd y pamffledyn hwn yn gymorth i rieni sy'n wynebu'r broblem o blentyn sydd wedi dechrau datblygu atal dweud. Cynigir gwybodaeth am atal dweud sy'n glir ac yn hawdd i'w deall. Mae'r pamffledyn hefyd yn cynnig syniadau ar sut y gall rhieni fod o gymorth i'w plentyn. Mae'n cynnwys awgrymiadau ynglŷn â sut i helpu'r plentyn - beth i'w wneud yn ogystal â beth na ddylid ei wneud.

Lluniwyd y pamffledyn gan Bwyllgor Ymchwil Therapyddion lleferydd i ddwyieithrwydd, dan nawdd Awdurdod Iechyd Sir Benfro. Sefydlwyd y pamffledyn er lles plant ac oedolion dwyieithog Cymru. Dymuna'r Pwyllgor gynnig diolch i bawb fu'n gysylltiedig â pharatoi'r pamffledyn, gan gynnwys Mr Morris Rhys a Dr Urien Wiliam.

Mae'r pamffledyn ar gael am 15c yr un oddi wrth:

P.Y.Th.Ll. i Dd.
Adran Therapi Lleferydd
Ysbyty Llwyn Helyg
Hwlffordd Sir Penfro/Dyfed

Yn ystod y degawd diwethaf dylifodd dwsinau o Yuppies Caerdydd i fyny'r afon Tâf i Odro'r Garth. Beth yn union yw'r atyniad mawr? Mewn cyfres o ymchwiliadau pell-gyrhaeddol bu 'Tafod Elai' yn holi pam y mae cymaint yn mynnu bod yn Garath-ion?




A OES HEDDWCH?

Pam ymfudais i Daf-Elai ym 1984 roeddwn union hanner ffordd at oed yr addewid ac roedd hi'n hen bryd i mi arafu neu welwn i fawr o'r hanner arall. Canfod rhyw ddedwydd lonydd le oedd fy mwriad, ond pan glywodd fy nghyfeillion Chwith-ig yn y ddinas fy mod ar fin mentro tua'r cyrion ni chefais un dim ond sen am fisoedd. Pwy adael y proletariat brwysg a hwythau 'Halfway' at y Chwyldro? I ba grach-ghetto yn y maestrefi yr awn i felly? PenTurk, Ribena ynteu Gwaelod yr Ardd? Pan gyfaddefir y gwir yr oeddynt yn deall yn iawn. I ba le wedi'r cwbwl yr âi cachwr ond i Waelod yr Ardd?

Ond nid Philistiaid mo 'nghyfeillion, a bûm wrthi fel coblyn yn rhestru rhagoriaethau diwylliannol ac anghydffurfiol y pentre bach fel na phigent arnaf mor enbyd. Ac yn wir i chi buan y peidiodd y plagio pan glywsant mai mewn tŷ teras y bwriadwn drigo ac y byddai gennyf lowr ar streic am y naill bared â mi a brdor lân ei Gwenhwyseg am y llall. Euthum innau i hwyl: "Dewch efo mi i'r datws yn y cefn hogia a mi a ddisgrifiaf i chwi holl ogoniant diwylliannol y panorama sy'n ymledu o'ch blaen...."

Welwch chi gopa'r Garth acw? Dyna lle bu'r 'Cowbridge Volunteers' yn gwasgaru Gorsedd Jacobinaidd Iolo Morgannwg gynt. Welwch chi balas Bryn Tafa lawr fan 'cw? Dyna lle bu'r Athro G.J. Williams yn sgwennu 'Traddodiad Llenyddol Morgannwg' yn ei amser sbâr. Dychmygwch Saunders yn ei bromio hi lawr Heol Ddu i weld ei gyfaill - dychmygwch y crêt o glaret yn y bŵt. Bu'r Mans acw wedyn yn gartref i R.G.Berry, dramodydd o Gog ddaeth lawr i chwilio am job ac aros am hanner can mlynedd. Arthur Miles yr arlunydd pia fan'cw wedyn a Chymry Cymraeg pia bob yn ail dŷ ar hyd fan hyn... Allan yma yn y wlad argyhoeddwyd y bechgyn fod diwylliant yn wir yn tyfu ar goed, ac roeddwn innau bellach y tu hwnt i feirniadaeth.

Ond peth peryg ar y naw yw pregethu'n rhy uchel ar lwyfan eich gardd datws. Ymlaciwn yn nyfnder y soffa un noswaith o Fedi gan ddrachtio rhywfaint o'r gwin adawodd Saunders pan glywais ryw guro wrth y porth. Wele wraig. Roedd si ar led fy mod yn Gymro hoff o'r 'Pethe'. Sut byswn i'n licio rhedeg cangen o'r Urdd yn y pentre? Meddyliais am funud mai tynnu fy nghoes yr ydoedd. Bu deng mlynedd a mwy ers i mi orfod trafferth egluro i neb nad yw 'Brest-Pen-Coed' yn rhan o fy repertoire. "Tyrd i Langrannog efo ni!" medda Gwilym wrtha i yn y 'Conway' tua 1973. "Gei di lot o hwyl sti". Chwarae teg iddo derbyniodd Gwilym yn raslon fy mod yn cael digon o hwyl fel yr oedd hi. Cefais wared yn ebrwydd â'r Urddynes ar yr hiniog ond nid hyn ond dechrau gofidiau...

Yn ystod y misoedd a ddilynodd ni fu pall ar y gwahoddiadau, yr anogaethau ac yn wir yr hwrjio diwylliadol. Clwb y Dwrlyn? Gŵyl ddrama? Clwb y Bont? Oedfa'r bore? Cwrdd llenyddol? Swper haf yr Ysgol Sul? Twmpath Dawns? Ffair sborion? ffair haf y Mudiad meithrin? Gwrth-apartheid? Cronfa'r glowyr? Taith gerdded noddedig dros Mozambique?

Be sy haru mhw deudwch? Oes gan y bobl bach brysur yma unrhyw syniad o gwbwl pam y deuthum yma i fyw? Bûm yn feistr corn drwy gydol fy oes ar osgoi cyfarfodydd a gweithgareddau pwyllgorawl o unrhyw fath. Dwad yma i osgoi pwysau bywyd y ddinas wnes i ddim dwad i 'gwrdd' â gofid.

Yr unig gnociwr gafodd groeso brwd acw oedd cynrychiolydd C.N.D. Cymru. Wedi fy holl helbulon gallwn uniaethu'n llwyr â phobol a alwai eu hunain yn 'Grŵp Heddwch Gwaelod-y-Garth'. Ac i'r sawl sydd ar fwriad tarfu ar fy hedd o hyn allan ystyr 'ymfudo' i mi yw myned yn fud. Iawn?

Dafydd Huws.



Ar y chwith - Dafydd Huws


Annwyl Olygydd

Mae Panel Llenyddiaeth Plant Cyngor y Celfyddydau wedi noddi nifer o gyrsiau i awduron plant dros y blynyddoedd. Roedd rhai yn ymwneud ag ysgrifennu i blant yn gyffredinol, a bu eraill, yn fwy diweddar, yn gyfrwng sefydlu cyfresi newydd fel Cyfres y Corryn a chyfres o nofelau i'r arddegau. Amrywient mewn hyd - o ddiwrnod i benwythnos gyfan - a chynhaliwyd y rhan fwyaf mewn gwesty yn ystod misoedd y gaeaf. Y nod oedd rhoi anogaeth ac arweiniad, darparu cyfle i bobl drafod â'i gilydd ac â golygydd, ac yn bennaf oll i gael llonydd i ysgrifennu. Tystia nifer fawr o awduron i werth y cyrsiau hyn.

Fodd bynnag, hyd yn hyn cynhaliwyd bron y cyfan yng Ngwynedd. Mae perygl ein bod wedi esgeuluso'r De ac mae hyn yn cael ei adlewyrchu yn y prinder o nofelau sy'n cynnwys cefndir a thafodiaith y De.

Ysgais yw'r llythyr hwn i weld a oes galw am gwrs neu weithdy yn eich ardal chi. Os oes gan eich darllenwyr ddiddordeb mewn cwrs o'r fath, a fuasent mor garedig â chysylltu â mi cyn gynted ag y bo modd?

Yn gywir iawn
Nan Griffiths
Swyddog Llenyddiaeth
Cyngor y Celfyddydau
Stryd yr Amgueddfa
Caerdydd CF1 3NX




Dyma'r erthygl gyntaf mewn cyfres newydd gan DAFYDD HUWS, Gwaelod-y-Garth. Efallai bod cliw ynddi sy'n egluro pam mai o dan enw arall y bu'n sgwennu ei golofn deledu i'r Faner ers stalwm.

---

Yn ystod y degawd diwethaf dylifodd dwsinau o Yuppies Caerdydd i fyny'r afon Taf i Odro'r Garth. Beth yn union yw'r atyniad mawr? Mewn cyfres o ymchwiliadau pell-gyrhaeddol bu 'Tafod Elai' yn holi pam y mae cymaint o deuluoedd dosbarth canol yn mynnu bod yn Garth-ion? Dianc wnaeth y cyntaf a holwyd...

'Nid fi yw'r seiciatrydd!'

Ni fum erioed at seiciatrydd: fy nhrafferth i yw fod y seiciatrydd yn mynnu fy mlino i. Cefais yr anffawd nid bychan o rannu'r un enw â seiciatrydd enwoca Gwalia. A beth sydd mewn enw? Trafferth hogia bach!

Yn ystod fy nhair blynedd ar ddeg - anlwcus i rai - o breswylio yn y brif-ddinas bûm yn fy ngwaith yn ailgyfeirio llythyrau'r seiciatrydd. Derbyniais bob math o sothach o eiddo'r dyn a derbyniodd y dyn rai o'm llythyrau innau a barnu yn ôl y graffiti ar wynebau'r amlenni druan ('Never heard of him'. 'Try Plaid Cymru'. 'Try Hensol Hospital'.) Derbyniais ei alwadau ffôn - rhai gwleidyddol, rhai gyfryngol, rhai meddygol. 'Nid fi yw'r seiciatrydd!' arthiais yn fy Saesneg coethaf wrth yr hen wraig ar y ffôn. 'O dwi'n gweld!' medda hi. 'Dim ots. Falle gellwch <u>chi</u>'n helpu fi'.

Mae'n debyg bod y Meddyg Da ambell dro wedi dioddef ar gam oherwydd f'ysgrifbin i. Ond er bod hynny'n rhywfaint o gysur nid oedd ond un ateb i'r broblem hunaniaeth yn y pendraw sef i um ohonom adael Caerdydd. Dihengais un dydd yn fore tua'r anghyfanleoedd hynny i'r gogledd o Gabalfa lle na throedia unrhyw Gaerdiffian gwerth ei halen a gosod fy mhabell ar odre Rhiw'r Ceiliog yng Ngwaelod-y-Garth.

Cedwais fy rhif ffôn yn gyfrinach gan ddatgelu fy nghyfeiriad ddim ond i'r rhai hynny yr oedd arnynt brês i mi. Siawns nad oeddwn yn ddiogel yn y llecyn anghysbell hwn rhag erledigaeth y Doctor Dinesig.

Ond och! a gwae. Prin yr oedd mwg ecsawst lori 'Pickfords' wedi gwasgaru nag y tybiais imi weled taldra main Herr Huws un bore Sul yn anelu'i gamau Gestapo am drws nesa. Pa beth a wneuthum iddo fel ei fod yn mynnu aflonyddu arnaf yn y modd hwn? Anwybyddais y drychiolaeth a deiagnosais baranoia. Ond y gwir a saif. Tydi'r cyfaill yn byw tu hwnt i'r afon mewn llecyn y gallaf ysbio arno o'r ffenast llofft. A'r aflwydd yw, os ydw i'n ei weld o mae o'n fy ngweld inna! Tydi o'n aelod yng Ngwaelod-y-Garth a thydi o'n picio mewn drws nesa i ymarfer ei wenhwyseg bob bore Sul rhydd er cyn co: er cyn y 'co' yma beth bynnag, taswn i ond yn gwbod!

Ni allaf ddianc rhag hwn: bydd yn rhaid dygymod â'r ffaith. Mae'r BBC eisioes wedi ffonio i ofyn i mi gyflwyno rhaglen wyddonol ar 'Radio Cymru'. Afraid bod y postman eisioes wedi dechrau ar ei driciau. Buan y bydd holl bymff seiciatryddol y greadigaeth yn sacheidiau wrth fy nôr. (Diolch i'r drefn nad yw'r capel yn cyhoeddi cyfraniadau unigol neu mae'n beryg mai Efe fuasai'n cael y clod am fy haelioni mawr <u>i</u>.) Atolwg chwychwi y mae arnoch newyn a syched am seiciatrydd! Cyfeiriwch eich llythyrau bendith Tad i chi i'r 'FFWRNES BLWM, CAERFFILI'. MAe peryg bywyd i unrhyw lythyr i 'FFWRNES BLWM, FFYNNON TAAF' landio yma. Canys y mae llythyr-gludwyr Morgannwg achlân fel bomiau niwtron yn anelu am y person yn hytrach na'r adeilad. Pa ddiben i'r tlawd hun ymfudo yr holl ffordd o Cathays i Waelod-y-Garth os mai mater o neidio o'r badell ffrio i'r FFWRNES yw hi?

# AIL WŶL AR Y GWEILL

Nos Lun 14eg Medi yn festri Capel Tabernacl, yr Efail Isaf, cynhaliwyd cyfarfod cyhoeddus i drefnu Gŵyl Ddrama 1987. Penderfynwyd mewn cyfarfod ym mis Mehefini geisio cadw at yr un trefniadau, hyd y bo modd, er mwyn ail-greu awyrgylch neuadd bentref gartrefol yr Ŵyl agoriadol. Drwy gadw at yr un wythnos ym mis Tachwedd y gobaith yw sefydlu'r arfer o Ŵyl Ddrama flynyddol yn y cylch fel y bydd pob Cymdeithas ac unigolyn yn ei nodi yn eu dyddiaduron ar ddechrau tymor.

Yn ei adroddiad, dywedodd Colin Williams fod Neuadd Dowlais wedi ei logi a bod y beirniad, y Br. Huw Ceredig, wedi ei sicrhâu. Mynegodd hefyd fod tair Ysgol Uwchradd yn awyddus i gystadlu ac iddo dderbyn ymddiheuriadau oddi wrth nifer o athrawon yn datgan eu siom na allent fod yn bresennol. Yn ôl cynrychiolwyr y cwmniau oedolion oedd yna, y mae 4 am fwrw ati eto eleni. Y mae hyn yn gwarantu llwyddiant i'r Ŵyl ond teimlai nifer yn y cyfarfod y gellid ennyn diddordeb un neu ddau o ardaloedd eraill i gystadlu. Beth amdani 'te, chi thesbiaid Llantrisant, Tonteg, Ynys y Bwl ----- ? Cytunwyd ar ddyddiad cau ar gyfer cystadlu, sef 14eg Hydref, felly ewch ati ar eich union ar ôl darllen y tipyn adroddiad hwn i wneud y galwadau ffôn angenrheidiol.

Diolchwyd i Roy Davies am ei gyfraniad technegol y llynedd ac am ei barodrwyd i helpu pob cwmni fel ei gilydd eleni eto. Gwerthfawrogwyd yn ogystal gyfraniad Jill Rees, ysgrifenyddes newydd-apwyntiedig y 'Tafod' a fu'n gohebu a chadw'r cofnodion. Yn bennaf oll, diolchwyd i gynrychiolwyr y cwmniau am eu presenoldeb yn y cyfarfod hwn a hynny wrth gwrs yn golygu hepgor noson o ymarfer a dysgu llinellau.


DYDDIAD CAU
14 HYDREF

CYSYLLTWCH Â
COLIN WILLIAMS
YR HAFOD
136 PARC Y FRO
CREIGIAU
0222 890979.

Yn ystod y degawd diwethaf dylifodd dwsinau o Yuppies Caerdydd i fyny'r afon Taf i Odro'r Garth. Beth yn union yw'r atyniad mawr? Mewn cyfres o ymchwiliadau pell-gyrhaeddol bu 'Tafod Elai' yn holi pam y mae cymaint o deuluoedd dosbarth-canol yn mynnu bod yn Garth-ion?

'FFOI RHAG Y FFILMIO!'

I arbed unrhyw gamddealltwriaeth hoffwn ei gwneud hi'n glir o'r dechrau nad fi yw'r Dafydd Huws a ysgrifennodd y llith yn y golofn hon y mis diwethaf. Mae'r socsan gefais i yn Nhaf-Elai yn anhraethol waeth...




Deuthum i'r brif-ddinas ar ddechrau'r saithdegau i geisio tipyn o'r hedd hwnnw na ŵyr cefn gwlad amdano. I geisio'r paradwys anhysbys hwnnw a rodianna ymhlith y miloedd heb orfod dweud bw na be wrth neb ohonynt. Ac fe'i cefais ar ei ganfed. Gogoniant Caerdydd erioed oedd medru troi'n alltud pryd bynnag y mynnwn a hynny heb orfod symud modfedd o'm gwlad fy hun.

Erbyn yr wythdegau ysywaeth yr oedd yr ysgrifen yn eglur ar y mur. Yr oedd yn amlwg bod ardaloedd anhysbys cyfan o'r ddinas yn cael eu gwladychu gan y Mediaid a'r Persiaid ers dyfodiad S4C. Aeth un asiant-tai mor bell â galw fy Mhontcanna hoff yn 'Welsh Quarter' mewn ymgais i ddenu mwy byth o thesbiaid i brynu yno dai. Doedd dim modd mynd ar gyfyl Queen St. heb gael eich llun ar 'Bowen a'i Bartner'. Ac ar glip 'Arolwg' o'r 'Byd ar Bedwar' gellid gweld criw'Dinas' yn ffilmio ar yr Hayes. Sbio'n wirion wnâi brodorion Bute wrth weld y madarch Annibynnol yn ffynnu ym Mynwent Mountstuart: 'Digon hawdd adnabod y Cymry Cymraeg - nhw ydi'r rhai gwyn sy'n gwisgo sgidia.' Roedd yn hen bryd i mi adael. Beth wedi'r cwbwl wneith dyn ar awr dywyll ond ei g'leuo hi?

Penderfynais ddychwelyd i'r Fro. Byw yn y wlad ymhell o leferydd a sŵn y Mediaid oll. Siansiair 'Peter Alan' i gymryd map a mesur arno daith deng munud mewn Metro o gwmniaeth hoff yr 'Heath', y 'Gower' a'r 'Flora', ac wele efe a argymhellodd Waelod-y-Garth. Pan ymwelais â'r pentref gwelais mai da ydoedd; prin yr elai'r thesbiaid i fan mor anghysbell. Hyn yn wir oedd y gorau o ddau fyd. Pwy ddywedodd nad yw Peter yn werth ei Alan?

Eisteddwn yn y parlwr bach un bore Sul yn ceisio cyflawni f'uchelgais am y flwyddyn honno, sef gorffen croesair yr 'Observer' cyn diwedd yr 'Awr Fawr'. O'm blaen roedd llond ffenest o'r mynydd ysblennydd hwnnw a elwir Craig yr Allt a fanno roeddwn yn dwysfyfyrio ar ddilema mawr y dosbarth-canol Cymraeg yn niwedd yr ugeinfed ganrif sef sut i fynychu'r oedfa ar fore Sul heb golli clasuriaeth-cwlt Alwyn Humphreys ar 'Radio Cymru' pan dybiais imi weled trawswch a welais ar 'Y Maes Chwarae' y noson cynt yn anharddu'r olygfa. Fe'i dilynwyd gan hanner dwsin o gyflwynwyr, cynhyrchwyr, ac actorion adnabyddus. Yr oedd rhywun neu'i gilydd wedi chwarae cast! Soniodd Peter Allan 'run gair am hyn! Ysywaeth, y mae cymaint o actorion Cymraeg yn mynychu'r oedfaon yng Ngwaelod-y-Garth fel eu bod yn ystyried newid enw'r capel bach o Fethle-hem i Fethle-ham.

Hyn yw fy nhynged bob bore Sul. Mae holl lymeitwyr clybiau'r BBC a HTV wedi fy nilyn yma fel petawn yn rhyw Bibydd Hud Hemeling. O'm cyfeiriad newydd ysgrifennais neges cryptig ar gerdyn post i gyfaill yn y ddinas. 'Taff's Well, but how am I?'

TWMPATH DAWNS
RHIENI DROS
ADDYSG GYMRAEG

NEUADD Y PENTREF
PENTYRCH
NOS SADWRN
14 TACHWEDD
TOCYNNAU:
0222 890571

## PERLAU'R PLANT



Mae hon yn mynd yn ôl dros ddwy flynedd, ond mae hi'n fythol wyrdd yn ein tŷ ni: tebyg bod gan bob rhiant straeon o'r fath. Wythnos Eisteddfod Genedlaethol y Rhyl oedd hi, a ninnau fel teulu'n aros yn hen gartref mam yng Nglyn Ceiriog. Doedd y plant ddim wedi dod â chymaint a hynny o deganau efo nhw, ac erbyn tua chanol yr wythnos, roedd yn rhaid rhoi'r dychymyg ar waith. Roedd yr ifanca', chwech oed ar y pryd, wedi tynnu dwy gadair at 'i gilydd, wedi gosod llyfr fel pont i gysylltu'r naill a'r llall ac yn cymryd arni bod rhyw ddol neu'i gilydd yn croesi'r rhychwant. Hwyrach mai'r ffaith 'i bod hi'n wythnos Eisteddfod oedd yn cyfrif am y ffaith 'mod i mewn hwyliau diwyllio, ond dyma ofyn a oedd un o'r ddwy'n cofio beth ddywedodd Bendigeidfran wrth 'i ddynion wrth orwedd ar draws yr afon honno yn Iwerddon erstalwm a'u gwahodd i gerdded trosto i'r ochr arall. Aros yn obeithiol am y disgwyliedig 'A fo ben ...' Aros yn ofer fodd bynnag, oherwydd y cynnig ges i gan y fechan oedd ... 'Un ar y tro?'

Fentra i mai dyna fasach chitha'n ddeud hefyd 'tasa mintai o drŵps Ynys y Cedyrn yn hwylio i fartsio drostoch chi!

A oes perlau? Cofiwch y cyfeiriad:

Maes yr Haul
Cross Inn
Llantrisant.

DAVIDSON
ARGRAFFWYR
LLYFRAU A LLYFRYNNAU
PAPURAU NEWYDD A
CHYLCHGRONAU
TAFLENNI
PAPUR YSGRIFENNU
MASNACHOL
3, JAMES PLACE,
TREFOREST.
PONTYPRIDD 400585.